

Briff Ymchwil

# Deintyddiaeth yng Nghymru


Awdur: **Joseph Champion**


Dyddiad: **Mehefin 2016**



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Joseph Champion**
Dyddiad: **Mehefin 2016**
Rhif Papur: **16-033**
**Llun Wikimedia gan Bin im Garten. Dan drwydded Creative Commons**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 7390**
**: Joseph.Champion@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Deintyddiaeth yng Nghymru

Mae'r papur hwn yn ystyried sefyllfa deintyddiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, a phrif bolisïau'r llywodraeth sy'n effeithio ar y maes. Mae'n edrych ar y gweithlu presennol a'r cynlluniau sydd ar waith i gynnal llif y deintyddion i mewn i'r proffesiwn. Mae hefyd yn ystyried sut y caiff gwasanaethau eu darparu, sut y telir amdanynt a faint o wasanaethau a ddarperir bob blwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys data ar ba gyfran o'r boblogaeth sy'n manteisio ar y gwasanaeth a rhai problemau posibl o ran cael gafael ar ddeintydd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Deintyddiaeth yng Nghymru

## Y cefndir

Mae darpariaeth gwasanaethau deintyddol yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, y **Cyngor Deintyddol Cyffredinol** sy'n gyfrifol am drefniadau rheoleiddio proffesiynol pob deintydd yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn cael cyngor ar bolisi iechyd deintyddol gan **Bwyllgor Deintyddol Cymru** a'r **Prif Swyddog Deintyddol**.

Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddiaeth y GIG yn cael ei darparu i gleifion trwy system contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn eu hardal.

Cyflwynwyd system **contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol** yng Nghymru yn 2006. Dyma brif elfennau'r contract:

- **tri thâl safonol** ar gyfer cleifion sy'n cael triniaeth y GIG;
- nid yw cleifion yn cofrestru â deintydd penodol mwyach, ond gall deintyddion gadw rhestr o gleifion y maent yn darparu triniaeth iddynt yn rheolaidd;
- ffordd newydd o gyfrifo gweithgarwch deintyddol sy'n golygu bod deintyddion yng Nghymru a Lloegr yn cael eu talu yn unol â nifer yr Unedau Gweithgarwch Deintyddol y maent yn eu cwblhau mewn blwyddyn;
- Byrddau Iechyd, yn hytrach na phractisau deintyddol eu hunain, yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau arferol'; a
- Byrddau Iechyd yn cadw'r cyllid ar gyfer deintyddiaeth y GIG pan fo deintydd yn gadael yr ardal, gan eu galluogi i sefydlu gwasanaethau deintyddol eraill i ddiwallu anghenion lleol.

Mae Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol, sy'n gweithredu'n bennaf mewn lleoliadau ar y stryd fawr, yn ymarferwyr annibynnol, hunangyflogedig sy'n llofnodi contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol â **Bwrdd Iechyd**, ond nid ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd.

Roedd **Adroddiad Blynyddol 2014/15** ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Iechyd y Geg yn nodi bwriad Llywodraeth flaenorol Cymru i:

> *[d]datblygu contract deintyddol newydd sy'n canolbwyntio ar ofal cleifion wedi'i deilwra, yn seiliedig ar atal ac ar asesu risg. Yr her yw datblygu system sy'n gweithio i gleifion a deintyddion fel ei gilydd. Yn ganolog i hyn bydd yr opsiynau ar gyfer gwneud y mwyaf o sgiliau'r tîm deintyddol cyfan, gan ystyried y trefniadau* ***Mynediad Uniongyrchol*** *a gyflwynwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.*

Gallai Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol fod yn darparu gofal y GIG yn unig, yn gweithio y tu allan i'r GIG yn llwyr neu, fel sy'n digwydd yn aml, yn darparu cymysgedd o ofal deintyddol y GIG a phreifat. Mae deintyddion eraill yn gweithio mewn **Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol** neu **Wasanaethau Deintyddol mewn Ysbytai**, a bydd y rhain fel arfer yn cael eu cyflogi gan y GIG.

Caiff deintyddion preifat eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru o dan **Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.** Cafodd y rheoliadau **hyn eu diweddaru yn 2011** ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat gael eu cofrestru ag

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).** Cynigiodd Llywodraeth flaenorol Cymru y dylid diweddaru'r rheoliadau eto.

Daeth yr ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft **Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2016** i ben ar 22 Ebrill 2016. Byddai'r rheoliadau arfaethedig yn golygu ei bod yn ofynnol i amrywiaeth ehangach o bobl sy'n ymwneud â deintyddiaeth breifat gofrestru ag AGIC. Y nod yw sicrhau bod y gofynion i gynnal archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer practisau deintyddol preifat yn cyd-fynd â'r hyn sy'n ofynnol yn y GIG. Byddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau eraill o'r tîm deintyddol, fel nyrsys deintyddol, hylenyddion deintyddol a therapyddion deintyddol, gael archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## Strategaethau i wella iechyd y geg yng Nghymru

### Y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Iechyd y Geg

Strategaeth Llywodraeth flaenorol Cymru ar gyfer iechyd deintyddol oedd: **Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg 2013-18.**

Roedd y cynllun hwn yn nodi agenda Llywodraeth flaenorol Cymru ar gyfer gwella iechyd y geg a lleihau anghydraddoldeb ym maes iechyd y geg yng Nghymru. Roedd yn canolbwyntio ar dair thema, sef gofal ataliol, darpariaeth gwasanaeth, ac ansawdd a diogelwch.

Roedd yn amlinellu sut y byddai ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu flaenorol o ran iechyd y geg a deintyddiaeth yn cael eu cyflawni. Dyma oedd yr ymrwymiadau hynny:

– ei gwneud yn haws cael gafael ar ddeintyddion lle ceir problemau yn lleol;

– annog pobl i fod yn gyfrifol am eu hiechyd deintyddol eu hunain;

– parhau i weithredu'r **Cynllun Gwên** i wella iechyd deintyddol plant; a

– sicrhau bod taliadau deintyddol yn parhau i fod yn fforddiadwy.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd fod â **Chynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg** i ymdrin â materion o bwys sy'n benodol i'w dinasyddion. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu o'u cymharu â gofynion y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Iechyd y Geg a **chanllawiau Llywodraeth Cymru.**

Cyhoeddir Adroddiadau Blynyddol sy'n rhoi darlun cyffredinol o'r camau a gymerwyd gan yr holl randdeiliaid allweddol i gyflawni'r targedau. Nodir yn **Adroddiad Blynyddol** diweddaraf y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Iechyd y Geg (2014-15) y bydd:

> *Llywodraeth Cymru, yn ystod 2016, yn dechrau ymgynghori ar ddiweddaru amcanion y Cynllun er mwyn sicrhau bod heriau newydd yn cael eu nodi a'u cyflawni.*

### Cynllun Gwên

Rhaglen iechyd y geg sy'n canolbwyntio ar blant, wedi'i sefydlu gan Lywodraeth flaenorol Cymru, yw Cynllun Gwên. Cafodd ei lansio ym mis Ionawr 2009 fel cynllun peilot tair blynedd mewn rhannau allweddol o Gymru. Oherwydd i'r rhaglen fod mor llwyddiannus, cafodd ei hehangu yn 2009 i gwmpasu Cymru gyfan.

Rhaglen ataliol, ag iddi ddau grŵp targed, yw Cynllun Gwên:

– **Plant oed meithrin/cynradd** - ar gyfer plant 3-5 oed, mae'n canolbwyntio ar ddarparu sesiynau brwsio dannedd yn y dosbarth, dan oruchwyliaeth, a **rhaglen farnais fflworid.** Mae plant 6-11 oed yn cymryd rhan mewn **rhaglen selio rhychau** ac yn cael cyngor ar sut i gynnal iechyd y geg; a

– **Babanod 0 - 3 oed** - mae'r pwyslais ar roi cyngor cyson ym maes iechyd y geg i rieni ac i unigolion eraill â chyfrifoldebau gofal plant. Darperir brwsys a phast dannedd yn rhad ac am ddim, ac anogir y rhai sy'n cymryd rhan i fynd at y deintydd yn rheolaidd.

Yn 2012, cynhaliodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Pedwerydd Cynulliad **ymchwiliad i iechyd y geg mewn plant yng Nghymru.** Roedd yr adroddiad a luniwyd o ganlyniad yn cynnwys argymhellion, gan gynnwys yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru:

– gyhoeddi adroddiadau monitro blynyddol ar y rhaglen Cynllun Gwên;

– addysgu rhieni'n well am y Cynllun Gwên;

– ystyried y dystiolaeth o blaid ymgorffori Cynllun Gwên yn y cwricwlwm cenedlaethol; a

– gwneud newidiadau i gontract deintyddol y GIG er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar waith ataliol gyda phlant.

Mae **gwerthusiad gan Lywodraeth Cymru** yn dadlau bod y Cynllun Gwên wedi arwain at ostwng lefelau pydredd dannedd, gan awgrymu:

> *[Ers c]anol yr 1980au, mae lefelau pydredd dannedd ymhlith plant pum mlwydd oed wedi parhau'n gyson ar 47%...Ers 2008, bu gostyngiad graddol yn lefelau pydredd ac mae'r arolwg diweddaraf, a gynhaliwyd yn 2015, yn dangos bod pydredd dannedd gan 35% o blant pum mlwydd oed yng Nghymru.*

## Cael gafael ar wasanaethau deintyddol

Yn y **24 mis cyn 31 Mawrth 2015**, cafodd 1.7 miliwn o gleifion driniaeth ddeintyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i 54.8 y cant o'r boblogaeth gyfan, sef 52.3 y cant o oedolion a 64.9 y cant o blant. Nid yw'n eglur pam nad oes mwy o bobl yn mynd at y deintydd. Yn 2011 cynhaliodd **Cymdeithas Ddeintyddol Prydain arolwg** (PDF 1.09MB), gan ddefnyddio sampl o 1000 o bobl o bob cwr o'r DU. Canfu mai'r rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â mynd at y deintydd oedd:

– y gred nad oedd angen iddynt fynd (66 y cant);

– y teimlad na allent fforddio mynd (17.2 y cant); ac

– ofn mynd at y deintydd (16.2 y cant).

Mae'r GIG yng Nghymru yn ceisio goresgyn y rhwystrau hyn. Mae'n darparu **peth cymorth ariannol i bobl sy'n methu â thalu** am driniaeth ddeintyddol, a **darperir triniaeth am ddim i rai grwpiau penodol o bobl**. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol **Cwm Taf wedi cynnal cynllun peilot llwyddiannus** i ddarparu triniaethau am ddim i ddinasyddion nad ydynt wedi'u cofrestru â phractis deintyddol.

Yn 2014 **dyfynnwyd yr Athro Mike Lewis,** Deon Ysgol Ddeintyddiaeth Prifysgol Caerdydd, fel a ganlyn:

> *The days of seeing people queued up outside practices are gone...I think the workforce is out there actually. I think at the present time, if somebody wants dental treatment they will get it.*

Fodd bynnag, nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2014-15 y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Iechyd y Geg:

> *Mae mynediad i ofal deintyddol y GIG wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf er bod anawsterau yn parhau mewn rhai ardaloedd...Gwelwyd rhai o'r gwelliannau*

*mwyaf yn yr ardaloedd lle y cafwyd yr anawsterau mwyaf o ran mynediad i wasanaethau yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae meysydd penodol yn parhau lle mae mynediad yn dal i fod yn anodd.*

## Datblygu a chynllunio'r gweithlu deintyddol

Rhwng **1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, cofnodwyd bod cyfanswm o 1,439 o ddeintyddion** yn cynnal gweithgarwch y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn gyfystyr â 4.7 o ddeintyddion i bob 10,000 o'r boblogaeth ar gyfartaledd. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na rhai 2007-08, sef 1,247 o ddeintyddion a 4.1 i bob 10,000 o'r boblogaeth.

Roedd **cynllun Llywodraeth flaenorol Cymru ar gyfer gofal sylfaenol a'r cynllun ategol ar gyfer y gweithlu** yn nodi sut yr oedd yn bwriadu sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys deintyddiaeth, yn gynaliadwy yn y tymor hir yng Nghymru. Bydd rhan o hyn yn dibynnu ar fanteisio i'r eithaf ar gyfraniadau amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol. Nododd Michael Allen, tiwtor yn yr **Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol Ôlraddedig**, mewn **erthygl ar Ofal Iechyd Darbodus:**

> *Mae model o ofal deintyddol sylfaenol modern lle bydd y deintydd yn rhoi'r diagnosis ac yn cynnig llwybrau gofal gan eu dirprwyo i weithwyr proffesiynol hyfforddedig sy'n darparu cymorth ym maes gofal deintyddol yn dod yn gynyddol dderbyniol.*
>
> *...Yn ymarfer deintyddol cyffredinol GIG yr awdur, sy'n darparu gofal deintyddol mewn practis â phedair meddygfa yn y Fenni, o dan **gynllun peilot deintyddol y GIG,** bydd swmp y gofal deintyddol syml a ddarperir o dan y GIG a bron yr holl ofal deintyddol pediatrig sy'n cael ei gynnig yn y practis, yn cael ei reoli bellach gan therapyddion deintyddol yn hytrach na'i fod yn cael ei ddarparu gan y deintydd. Mae hyn wedi galluogi'r deintyddion i dreulio mwy o amser ar driniaethau mwy cymhleth.*

## Talu am ddeintyddiaeth yng Nghymru

### Tâl i ddeintyddion

Yn unol â'r contractau ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, mae gan ddeintyddion gontract â Byrddau Iechyd i gyflawni nifer benodol o Unedau Gweithgarwch Deintyddol. Maent yn cael ffi benodol am bob uned a gyflawnir o dan y contract hwn. Y ffi ym mis Ebrill 2015 oedd £13.50 yr uned. **Mae'r Unedau Gweithgarwch Deintyddol yn amrywio yn unol â bandiau triniaethau gwahanol.**

**Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015,** cynhaliwyd dros 5 miliwn o unedau gweithgarwch deintyddol yng Nghymru. Mae hyn 1.5 y cant yn llai nag yn 2013-14. Mae'r 5 miliwn o unedau yn gyfystyr ag oddeutu 2.4 miliwn o gyrsiau unigol o driniaeth ddeintyddol gan y GIG.

I oedolion a oedd yn talu y darparwyd 42.7 y cant o'r holl gyrsiau triniaeth ym mlwyddyn ariannol 2014-15. Roedd hyn yn golygu y codwyd £31.6 miliwn ar ddefnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru, sydd 4.5 y cant yn fwy na'r £30.2 miliwn a godwyd yn 2013-14.

### Rhaglen cynlluniau peilot deintyddol Cymru

Trefnwyd rhaglen cynlluniau peilot deintyddol Cymru er mwyn profi systemau newydd o ddarparu gwasanaethau deintyddol ac o dalu amdanynt yng Nghymru. Y nod oedd profi system wahanol a fyddai'n gweithio i ddarparwyr, Byrddau Iechyd a chleifion.

Roedd y systemau a brofwyd yn y rhaglen beilot yn symud oddi wrth drefniadau ar sail Unedau Gweithgarwch Deintyddol, a thuag at system a oedd yn canolbwyntio ar ofal cleifion seiliedig ar asesiadau risg. Dewiswyd dau gynllun peilot:

– **Y Peilot Ansawdd a Deilliannau;** Mae hwn yn profi ffordd newydd o weithio gan fynd i'r afael â materion yn ymwneud â mynediad, ansawdd a gwaith ataliol trwy gael gwared ar y targed o ran Unedau Gweithgarwch Deintyddol. Mae'r ddarpariaeth yn hytrach yn seiliedig ar Daliad y Pen ac ar sail Ansawdd, sy'n canolbwyntio ar nifer y cleifion ac ar hyrwyddo gofal ataliol. Y bwriad, wrth gael gwared ar Unedau Gweithgarwch Deintyddol, oedd rhoi rhyddid i glinigwyr wneud penderfyniadau gan ddefnyddio'u crebwyll clinigol eu hunain ynglŷn â'r hyn sydd orau i'w cleifion;

– **Y Peilot i Blant a Phobl Ifanc 0-17 oed;** Roedd y cynllun peilot hwn yn cymell deintyddion i ddarparu gofal ataliol i blant a phobl ifanc 0-17 oed, yn ategu'r Cynllun Gwên ac yn profi'r syniad o gyflwyno dangosyddion Ansawdd a Mynediad.

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru y **Gwerthusiad Terfynol o Gynlluniau Peilot Deintyddol Cymru** ym mis Medi 2015. Nododd:

> *The next stage is to develop a prototype of the modified system and gather more evidence before any final decisions are made on the shape of any future contractual changes in Wales.*

## Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan Galw Iechyd Cymru** am:

– ddod o hyd i ddeintydd, cofrestru gyda phractis a chael gafael ar wasanaethau deintyddol, gan gynnwys triniaeth frys;

– costau triniaethau trwy'r GIG;

– cyflwyno cwyn am ddeintydd y GIG neu ddeintydd preifat;

– cael gweld cofnodion deintyddol

## Ffynonellau allweddol


Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Pedwerydd Cynulliad, **Ymchwiliad i iechyd y geg mewn plant** (2012)

Ystadegau Cymru, **Ystadegau deintyddol y GIG yng Nghymru, 2014-15** (2015)

Llywodraeth Cymru, **Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Iechyd y Geg yng Nghymru - Adroddiad blynyddol 2014-15** (2015)

Llywodraeth Cymru / Miller Research, **Gwerthusiad terfynol o gynlluniau peilot deintyddol Cymru** (2015)

Llywodraeth Cymru, **Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg (2013-18)** (2013)

Llywodraeth Cymru, **Iechyd ceg plant yng Nghymru - rhywbeth i godi gwên** (2016)